# Ein Hamgueddfa Ni

## Llawlyfr Athrawon







Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn
The Llŷn AONB Sustainable Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Amgueddfa Forwrol Llŷn
Maritime Museum

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI


https://llyn-maritime-museum.co.uk/adnoddau-i-ysgolion.html

# Gwybodaeth am becyn adnoddau'r Amgueddfa

Paratowyd pecyn "Ein Hamgueddfa Ni" fel adnodd addysgol am yr Amgueddfa, Llŷn a'n hanes cyfoethog.

Bwriad y pecyn yw darparu adnoddau hyblyg, trawsgwricwlaidd ar gyfer ysgolion cynradd.

Does dim hawlfraint ar y pecyn, fel bod modd i chi

- Addasu'r ffont
- Addasu diwyg y taflenni
- Addasu'r cynnwys yn ôl gallu'r disgyblion
- Addasu'r cynnwys i fod yn fwy perthnasol i'ch hysgol/pentref
- Llungopïo

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau defnyddio'r adnoddau a geir yn y pecyn hwn.

Byddwn yn falch o dderbyn sylwadau ac awgrymiadau pellach gennych chi. Ein bwriad yw cynhyrchu rhagor o adnoddau ar-lein gydag amser.

Mae llawer rhagor i'w ddarganfod yma yn ein Hamgueddfa. Os oes angen gwybodaeth arnoch am agweddau o hanes lleol neu hanes morwrol, cysylltwch â ni ac mi wnawn ein gorau i'ch helpu.


Gwell byth, beth am ddod ar ymweliad i'r Amgueddfa ?

Manylion llawn ar dudalen 17 ac 18

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Cwricwlwm i Gymru

Paratowyd gweithgareddau pecyn "Ein Hamgueddfa Ni" yn seiliedig ar bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.




Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio o fewn y chwe maes profiad a dysgu a'r fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Mapio'r pecyn adnoddau i'r meysydd profiad

| Tudalen | Gweithgaredd | Maes Profiad a Dysgu |
|---|---|---|
| 1 | **Rhan 1—Yr Amgueddfa** | |
| 2 | Beth yw Amgueddfa | Dyniaethau |
| 3 | Holi'r Swyddog Treftadaeth | Dyniaethau |
| 4 | Holi'r Swyddog Treftadaeth | Dyniaethau |
| 5 | Beth sy'n digwydd mewn Amgueddfa | Dyniaethau |
| 6 | Ymchwilio i weithgareddau'r Amgueddfa | Dyniaethau |
| 7 | Astudio adeilad yr Amgueddfa | Dyniaethau |
| 8 | Beth mae pobl yn ei wneud mewn Amgueddfa | Dyniaethau |
| 9 | Geirfa Amgueddfa | Dyniaethau |
| 10 | Ymchwilio i eirfa Amgueddfa | Dyniaethau |
| 11 | Astudio lluniau / geirfa Amgueddfa | Dyniaethau |
| 12 | Astudio lluniau/ geirfa Amgueddfa | Dyniaethau |
| 13 | Gwaith maes y fynwent – siart tali | Dyniaethau<br>Mathemateg a rhifedd |
| 14 | Gwaith maes y fynwent – casglu gwybodaeth oddi ar feddi | Dyniaethau |
| 15 | Gwaith maes y fynwent – casglu gwybodaeth oddi-ar feddi | Dyniaethau |
| 16 | Gwaith maes y fynwent – chwilio am hen graffiti ar y cerrig beddi | Dyniaethau |
| 17 | Gwaith maes y fynwent – casglu gwybodaeth oddi ar feddi | Dyniaethau |
| 18 | Gwaith maes y fynwent – chwilio am fywyd gwyllt | Gwyddoniaeth a thechnoleg |
| 19 | Symbolau map O.S. o gwmpas yr Amgueddfa | Dyniaethau |
| 20 | Symbolau map O.S. o gwmpas yr Amgueddfa | Dyniaethau |
| 21 | Symbolau map O.S a chyfeiriad cwmpawd | Dyniaethau |
| 22 | Symbolau map O.S a chyfeiriad cwmpawd | Dyniaethau |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

| Tudalen | Gweithgaredd | Maes Profiad a Dysgu |
|---|---|---|
| 23 | Cwmpawd - plotio pethau o gwmpas yr Amgueddfa | Dyniaethau |
| 24 | Cwmpawd – plotio pethau o gwmpas y dosbarth | Dyniaethau |
| 25 | Cwmpawd – plotio pethau o gwmpas fuarth yr ysgol | Dyniaethau |
| 26 | Gwaith map – awyrlun | Dyniaethau |
| 27 | Gwaith cyfeirnod grid | Mathemateg a rhifedd |
| 28 | Nodweddion ffisegol a dynol | Dyniaethau |
| 29 | Gwaith cyfeirnod grid a nodweddion ffisegol / Dynol | Mathemateg a rhifedd |
| 30 | Labelu awyrlun | Dyniaethau |
| 31 | Cyfeirnod grid 2 digid ar awyrlun | Dyniaethau |
| 32 | Cyfeirnod grid 4 digid ar awyrlun | Dyniaethau |
| 33 | Eglwysi a Ffynhonnau Llwybr y Pererinion | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 34 | Llwybr y Pererinion ar awyrlun | Dyniaethau |
| 35 | Disgrifio taith o'r ysgol i'r Amgueddfa | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 36 | Llinell amser yr Amgueddfa | Mathemateg a rhifedd<br>Dyniaethau |
| 37 | Llinell amser yr Amgueddfa | Mathemateg a rhifedd<br>Dyniaethau |
| 38 | Geirfa llinell amser | Mathemateg a rhifedd<br>Dyniaethau |
| 39 | Trefnu llinell amser | Mathemateg a rhifedd<br>Dyniaethau |
| 40 | Celf – arbrofi hefo tôn | Celfyddydau mynegiannol |
| 41 | Celf – sgets | Celfyddydau mynegiannol |
| 42 | Celf – Arbrofi hefo dyfrlliw | Celfyddydau mynegiannol |
| 43 | Celf – Arbrofi hefo dyfrlliw | Celfyddydau mynegiannol |
| 44 | Celf – Arbrofi hefo dyfrlliw | Celfyddydau mynegiannol |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

| Tudalen | Gweithgaredd | Maes Profiad a Dysgu |
|---|---|---|
| 45 | Celf – peintio llun o'r Amgueddfa | Celfyddydau mynegiannol |
| 46 | Celf – efelychu artist | Celfyddydau mynegiannol |
| 47 | Celf – efelychu artist | Celfyddydau mynegiannol |
| 48 | Creu model gyda sbwriel | Celfyddydau mynegiannol |
| 49 | Creu ceiliog gwynt hefo cylched drydanol | Gwyddoniaeth a thechnoleg |
| 50 | Cynllunio ceiliog gwynt | Gwyddoniaeth a thechnoleg |
| 51 | Diagram symbolau cylched drydanol | Gwyddoniaeth a thechnoleg |
| 52 | **Rhan 2— Arteffactau** | |
| 53 | Beth yw arteffact | Dyniaethau |
| 54 | Beth yw arteffact | Dyniaethau |
| 55 | Gwaith Grŵp Arteffactau'r Amgueddfa | Dyniaethau |
| 56 | Creu arddangosfa hefo arteffactau | Celfyddydau mynegiannol |
| 57 | Creu arddangosfa hefo arteffactau | Celfyddydau mynegiannol |
| 58 | Edrych ar siapiau cymesur llestri o longddrylliad | Celfyddydau mynegiannol<br>Mathemateg a rhifedd |
| 59 | **Arteffact 1- Y Gist a'r Sgerbwd** | |
| 60 | Erthygl y BBC am y sgerbwd | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 61 | Hanes y sgerbwd | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 62 | Geirfa | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 63 | Cwestiynau am y sgerbwd | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 64 | Beth fyddai'r disgyblion yn hoffi ei wybod am y sgerbwd | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 65 | Trafod : llun safle Archeolegwyr yn yr Amgueddfa | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 66 | Tasg : ysgrifennu am y sgerbwd | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 67 | **Arteffact 2 – Darn o bren hefo ysgrifen arno** | |
| 68 | Trafod : Beth yw'r pren | Dyniaethau |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

| Tudalen | Gweithgaredd | Maes Profiad a Dysgu |
|---|---|---|
| 69 | Creu copi o'r arteffact pren | Iechyd a lles<br>Celfyddydau mynegiannol |
| 70 | Casglu geiriau i'w ddisgrifio | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 71 | Creu brawddegau i'w ddisgrifio | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 72 | Defnyddio idiomau a chymariaethau i ddisgrifio | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 73 | Creu neges graffiti fodern | Iechyd a lles |
| 74 | Gwrando ar y gân 'Tre' Porthmadog' | Iechyd a lles<br>Celfyddydau mynegiannol |
| 75 | Tasg uwcholeuo geirfa yn y gân | Dyniaethau<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 76 | Gwrando ar y gân a nodi ffeithiau | Dyniaethau<br>Celfyddydau mynegiannol<br>Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 77 | Mapio mordeithiau | Dyniaethau |
| 78 | Gwaith data ar borthladdoedd a mordeithiau | Mathemateg a rhifedd |
| 79 | Uwcholeuo manylion ar gopi o lyfr log llong | |
| 80 | Dadansoddi log llong i gywain gwybodaeth | Dyniaethau |
| 81 | Creu allwedd cargo oedd yn cael ei allforio | Dyniaethau |
| 82 | Rhestr siopa ar gyfer mordaith | Dyniaethau |
| 83 | Llunio lluniau o offer ar gyfer cist mordaith | Dyniaethau |
| 84 | Creu amserlen aelod o griw llong a chreu amserlen gyferbynniol o blentyn heddiw | Dyniaethau<br>Mathemateg a rhifedd |
| 85 | Transgript/ fideo o gyfweliad â morwr | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 86 | Ysgrifennu swydd ddisgrifiad aelod o griw | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 87 | Ysgrifennu hysbyseb ar gyfer aelod o griw | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 88 | Casglu geirfa yn efelychu arddull 'Gadael Tir' J.Glyn Davies (yn y Llalwlyfr Athrawon) | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 89 | Creu pennill yn efelychu arddull 'Gadael Tir' J.Glyn Davies (yn y Llawlyfr Athrawon) | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 90 | Llythyr adref o Dde Affrica | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 91 | Llun potel (cof-rodd) | Ieithoedd, llythrenned a chyfathrebu |


Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

| Tudalen | Gweithgaredd | Maes Profiad a Dysgu |
|---|---|---|
| 92 | Ymchwil : beth yw Siantis môr | Celfyddydau mynegiannol |
| 93 | **Arteffact 3 — Cadair Bos'n** | |
| 94 | Grid G.E.D | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 95 | Testun i'w ddarllen | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 96 | Cymharu cadair bos'n heddiw / ers talwm | Dyniaethau |
| 97 | Gwylio fideo ar greu cadair bos'n syml | Gwyddoniaeth a thecholeg |
| 98 | Gwylio fideo o bysgotwr heddiw'n clymu rhaffau – plant i gael tro | Gwyddoniaeth a thecholeg |
| 99 | Labelu llun cadair bos'n | Gwyddoniaeth a thecholeg |
| 100 | Disgrifio pwrpas pwliau | Gwyddoniaeth a thecholeg |
| 101 | Dilyn cyfarwyddyd i greu system bwli | Gwyddoniaeth a thecholeg |
| 102 | Peintio llun golygfa tra ar ben cadair bos'n | Celfyddydau mynegiannol |
| 103 | Casglu geirfa am olygfa | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 104 | Ysgrifennu disgrifiad o olygfa | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| 105 | **Arteffact 4 – Medal ar gyfer defnyddiwr Roced Achub Bywyd** | |
| 106 | Map meddwl | Dyniaethau |
| 107 | Hanes dylunydd y Roced Achub Bywyd gyntaf | Dyniaethau |
| 108 | Hanes dylunydd y Roced Achub Bywyd gyntaf | Dyniaethau |
| 109 | Llun roced achub bywyd - i'w drafod | Dyniaethau |
| 110 | Ysgrifennu erthygl | Dyniaethau |
| 111 | Creu roced niwmatig | Gwyddoniaeth a thechnoleg |
| 112 | Mesur pellter tafliad y roced – data | Mathemateg a rhifedd<br>Gwyddoniaeth a thechnoleg |
| 113 | Gwylio fideo– creu roced o hylifau | Gwyddoniaeth a thechnoleg |
| 114 | Dylunio medal | Iechyd a lles<br>Celfyddydau mynegiannol |
| 115 | Gwaith map ac allwedd – badau achub lleol | Dyniaethau<br>Iechyd a lles |
| 116 | Ymchwilio i ddata am fadau achub lleol | Mathemateg<br>Dyniaethau |
| 117 | Map llongdrylliadau lleol | Dyniaethau |
| 118 | Arteffact o longddrylliad yn Llŷn | Dyniaethau |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Enghreifftiau o rai o weithgareddau'r pecyn



## y fynwent

Ewch i'r fynwent efo'r daflen, clipfwrdd a phensil


Nodwch ddyddiadau'r beddi

| dyddiad ar y garreg fedd | siart tali | nifer |
|---|---|---|
| 1950- 2020 | | |
| 1900-1949 | | |
| 1850-1899 | | |
| 1800-1849 | | |
| 1750-1799 | | |
| 1701-1749 | | |
| Cyn 1700 | | |

13

Defnyddiwch j2data ar HWB i gofnodi'r data mewn graff

Mathemateg a rhifedd



## gwaith map

Labelwch yr Amgueddfa ar yr awyrlun




Labelwch nodweddion eraill ar yr awyrlun

| nodwedd | Cyfeirnod grid 4 digid | Symbol O.S. |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

32

Dyniaethau



## Arteffact 3

**Defnyddir pwlïau yn aml**

- Mae hofrennydd achub yn defnyddio pwli i godi pobl i mewn yn ddiogel.
- Mae craen yn defnyddio pwli i symud pethau hynod o drwm.
- Defnyddir pwli i godi baner i ben polyn fflag.
- Roedd ffynnon ers talwm yn defnyddio pwli i godi'r bwced llawn dŵr.

**Gwneud pwli syml**

Offer


- 2 glip papur fel hyn
- Tua medr o linyn neu edafedd cryf
- Basged neu focs bach tebyg i hwn
- Rhywbeth bach i'w roi yn y fasged e.e lego neu bensiliau

Dull

1. Agorwch ganol y clip papur cyntaf i wneud bachyn .
2. Clymwch y bachyn yma i un pen o'r llinyn
3. Rowch ben arall y llinyn trwy'r clip papur arall.
4. Rydych wedi gwneud pwli syml!
5. Rhowch y fasged ar y llawr gyda beth bynnag sydd ynddi. Ceisiwch gael eich bachyn i gydio yn y fasged. Os nad oes tyllau yn eich basged mae ychydig yn anoddach
6. Gydag un law gafaelwch yng nghlip papur dau a gyda'r llaw arall tynnwch y llinyn. Fe ddylech fedru codi'r fasged.

101

Gwyddoniaeth a thechnoleg



## Dod o hyd i sgerbwd


Beth yw ystyr y geiriau hyn? Ewch ati i chwilio am air tebyg mewn Thesawrws

Beth am osod y geiriau yn nhrefn yr wyddor?

| Gair | ystyr | Gair tebyg defnyddiwch Thesawrws |
|---|---|---|
| Cristionogol | | |
| Canol oesoedd | | |
| Pererinion | | |
| Priordy | | |
| Adfail | | |
| Darganfyddiad | | |
| Archeolegwr | | |
| Cloddio | | |
| Olion dynol | | |
| Cistfaen | | |
| Canolfan Dreftadaeth | | |
| Cyfnod | | |

62

Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu



## celf

Arbrofwch hefo technegau dyfrlliw


e.e. brwsh sych ar bapur gwlyb, brwsh gwlyb ar bapur gwlyb

Cymysgwch baled o'r lliwiau sydd yn llun yr Amgueddfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| tywyll | tywyll | tywyll | tywyll |
| | | | |
| | | | |
| golau | golau | golau | golau |

44

Celfyddydau mynegiannol



## Arteffact 2

Mae darn pren Owen John Roberts o 1902 yn debyg i'n graffiti modern ni heddiw

gan Andy Birch    gan Banksy    gan Darren Evans

Dyluniwch graffiti a neges i bawb adref pe baech chi'n mynd ar fordaith i Dde Affrica


73

Iechyd a lles



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Map llongddrylliadau




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Map o gantref hanesyddol Llŷn a'i gymydau




Atlas Sir Gaernarfon" Cyngor Gwynedd, Gwasg Gee 1976



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# Gwaith maes yn y fynwent

**Beth yw cen?**

Mae cen yn ddau neu fwy o organebau sy'n byw gyda'i gilydd fel un. Mae ffwng yn ffurfio rhan weladwy o'r cen a'r tu mewn. Gall cennau atgynhyrchu drwy ryddhau sborau bychain a gallant ymledu drwy gynhyrchu alldyfaint powdrog mân iawn; bydd rhain yn cael eu gwasgaru gan anifeiliaid neu gan y gwynt a'r glaw.

**Ym mhle mae cen yn tyfu?**

Mae cen yn ffurfio patrymau, weithiau'n lliwgar, ac yn aml iawn ar waith carreg. Lle gwell felly na Mynwent Eglwys Santes Fair i wneud ychydig o waith maes ar gen ! Mae nhw'n gyfoethog iawn mewn safleoedd sydd heb eu llygru.

Os yw'r golau a'r gwlybaniaeth yn berffaith, yna bydd cen yn tyfu ar arwyneb sy'n anaddas i blanhigion eraill. Tydy nhw ddim yn tyfu'n gyflym iawn, gyda rhai yn tyfu ond tua 1mm y flwyddyn !

**Pwysigrwydd mynwentydd i gadwraeth cen**

Mae 2000 rhywogaeth o gen yng ngwledydd Prydain a 700 o'r rhain i'w canfod mewn mynwentydd, gyda llawer o'r rhain hefyd yn brin iawn ! Gellir darganfod hyd at 100 rhywogaeth o gen mewn un fynwent!

**Helpu cennau**



- Rhaid peidio chwistrellu o amgylch cerrig beddi a chofebau
- Rhaid ceisio torri planhigion fel eiddew, sy'n atal goleuni i'r cen
- Rhaid symud gwair sydd wedi'i dorri gan y gall wenwyno cen
- Fel rheol nid yw cen yn gwneud niwed i gerrig; felly dylid ei adael

**<u>Syniadau am waith maes</u>**



- Helfa cen – mynd o amgylch yn tynnu lluniau camera o wahanol fathau
- Helfa cen – gwneud sgetsys
- Gwaith dosbarthu a data – pa fath o gen sy'n tyfu mewn llefydd gwahanol
- Gwaith ymchwilio – rhywogaethau
- Gwaith mapio – creu map, cynllun neu lun syml o'r fynwent
- Gwaith cadwraeth



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# Gwaith maes yn y fynwent

## Syniadau ychwanegol am waith maes

**Bywyd gwyllt**

- Helfa natur – chwilio am flodau, ffyngau neu blanhigion, a chofnodi rhywogaethau
- Tynnu lluniau neu sgetsio blodau, ffyngau neu blanhigion
- Gwrando ar sŵn adar neu arolwg o ba adar sydd i'w gweld
- Chwilio am loÿnnod byw neu wyfynnod
- Helfa drychfilod – chwilio a thynnu lluniau trychfilod neu eu casglu'n ofalus a'u rhyddhau
- Gwaith data – casglu lluniau o'r rhywogaethau i wneud gwaith data yn yr ysgol

**Treftadaeth Adeiledig**

- Tynnu lluniau camera o gerrig beddi
- Rhwbiadau cerrig beddi – papur a phensiliau
- Gwaith celf - sgets neu beintiad
- Edrych ar wahanol gerrig – cofebau, croesau, cistiau cerrig bedd ayyb

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

- Tynnu lluniau camera o gerrig beddi
- Rhwbiadau cerrig beddi
- Astudio'r ysgrifen ar y cerrig beddi
- Oes unrhyw sôn am swyddi'r meirwon ar y cerrig beddi ? Capteiniaid, morwyr ayyb
- Iaith y cerrig beddi
- Astudio sillafiad geiriau ar y cerrig beddi e.e Nevin
- Oes penillion ar y cerrig beddi?
- Oes lluniau wedi'u cerfio ar y cerrig beddi?



**Gwaith celf**

- Sgetsio yn yr awyr agored
- Peintio yn yr awyr agored
- Gwaith ffotograffiaeth



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Deunyddiau defnyddiol

| |
|---|
| **Ffilm fer gan Dylan Williams, Stiwdio Trawscoed** Nefyn teaser trailer - YouTube<br>*DVD o hanes Nefyn drwy'r oesoedd — Ar gael o Siop yr Amgueddfa* |
| **CDd "Codi Angor" -siantis môr gan artistiad cyfoes lleol**<br>*Ar gael o Siop Yr Amgueddfa* |
| **Clip o noson siantis môr gynhaliwyd yn yr Amgueddfa**<br>*www.facebook.com/326056434130081/videos/1416445971757783*<br>*www.facebook.com/326056434130081/videos/1758808260854884* |
| **Cymru a'r Môr / Maritime Wales**<br>*(cyhoeddir yn flynyddol gan Wasanaeth Archifau Gwynedd)*<br>*Erthyglau, lluniau am ein hanes morwrol.* |
| **Llyfrau defnyddiol**<br><br>"Fflat Huw Puw a cherddi eraill " J.Glyn Davies : Gomer 1992<br>"Cerddi Portin-llaen " J Glyn Davies : Brython<br>" Mi wisga'i gap pig gloyw " Cledwyn Jones : Gwasg Pantycelyn<br>" Nefyn , The Story of an Ancient Gwynedd Town" Roland Bond : Gwalch 2008<br>"Pwllheli the port and Mart of Llŷn" Lewis Lloyd : Gwasg Pantycelyn 1991<br>"Smyglwyr Cymru" Twm Elias a Dafydd Meirion : Carreg Gwalch 2007<br>"Atlas sir Gaernarfon" gol TM Bassett a B Ll Davies : Cyngor Gwlad Gwynedd 1997<br>"Ar hyd ben 'rallt" Elfed Gruffydd : Clwb y Bont Pwllheli 1991<br>"Pysgotwyr Cymru a'r Môr" gol Robin Evans : Carreg Gwalch 2011<br>"Enlli, ddoe a heddiw" gol Peter Hope Jones : Gwasanaeth Archifau Gwynedd 1987<br>"Porthdinllaen – from harbour company to National trust" Tom Morris : Carreg Gwalch<br>"The Herring fishers of Wales" Mike Smylie : Carreg Gwalch 1998<br>"Lloffion Llŷn'"gol W Arfon Roberts : Carreg Gwalch 2000 |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Gwefannau defnyddiol

| |
|---|
| Amgueddfa Forwrol Llŷn<br>**www.llyn-maritime-museum.co.uk** |
| Gwybodaeth am bentref Rhiw , Llŷn a hanes morwrol<br>**www.rhiw.com** |
| GAT Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd<br>Gwefan hefo gwybodaeth am waith archeolegol lleol<br>**www.heneb.co.uk** |
| Llyfrgell Cenedlaethol Cymru yn gwneud ein treftadaeth yn hygyrch i bawb.<br>Casgliad digidol yn cynnwys mapiau degwm, cylchgronau, papurau newydd ayyb<br>**www.llyfrgell.cymru** |
| Archif lleol, gyda stor helaeth o wybodaeth am ein hanes<br>Casgliad Henry Parry (casgliad o luniau ayyb am Nefyn)<br>**archifau@gwynedd.llyw.cymru** |
| Gwefan gwybodaeth am gymunedau Llŷn<br>**www.penllyn.com** |
| Gwefan y Llyfrgell Genedlaethol—casgliad digidol o ffotograffau, recordiadau sain, fideos a dogfennau am hanes a threftadaeth Cymru<br>**www.casgliadywerin.cymru** |
| Archif swyddogol llywodraeth Prydain. Cofnodion morwrol, rhyfel, llywodraeth ayyb<br>**www.nationalarchives.gov.uk** |
| Gwefan sy'n defnyddio côd QR i ddod â hanes i'r i-ffôn—nifer o leoliadau<br>e.e. Whitehall Pwllheli, Porth Colmon, a'r Amgueddfa hon !<br>**www.History Points.org** |
| Catalog ar-lein ardderchog o archeoleg, treftadaeth forwrol, diwydiannol a chymdeithasol<br>**www.coflein.gov.uk** |
| Cywaith o gofnodion gwaith Cadw, CBHC ac Amgueddfa Cymru<br>**www.cbhc.gov.uk /darganfod/cymru-hanesyddol** |
| Rhestr o forwyr 1800-1945, llawer ohonynt yn dod o Lŷn<br>**www.welshmariners.org.uk** |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Siantis môr - linciau caneuon

| |
|---|
| Tre' Porthmadog - YouTube |
| Codi Angor - Georgia Ruth (geiriau / lyrics) - YouTube |
| Edrych tuag adra - YouTube<br>Yn harbwr Corc - YouTube<br>Y sgwner tri mast - YouTube  Fflat huw puw - YouTube<br>Llongau Caernarfon - YouTube<br>Codi angor - YouTube  Cân Huw Puw - YouTube<br>Teg oedd yr awel - YouTube<br>Dafydd Jones - YouTube |
| Cowbois Rhos Botwnnog - Cân y Capten Llongau (Live at Acapela Studio) - YouTube |
| Cân y Llong - Gwyneth Glyn (geiriau / lyrics) - YouTube<br>Cân y Siarc - Gwyneth Glyn (geiriau / lyrics) - YouTube |
| 'Fflat Huw Puw' gyda offerynnau cartref - YouTube |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Dewch i'r Amgueddfa!

**Rydym yn croesawu grwpiau o blant o bob oed i'n Hamgueddfa.**

**Dyma'r ffordd orau i weld, clywed, cyffwrdd, profi a dysgu am ein gorffennol**

**Dyma ein cyfleusterau :**

Tu mewn

- Byrddau a chadeiriau addas i sesiynau addysgol
- Cyfrifiadur efo sgrîn fawr ac uwchdaflunydd ac i-padiau
- Arteffactau, arddangosfeydd,
- Arddangosfeydd sain-a-llun digidol a caban llong rhyngweithiol
- Adnoddau celf a chrefft, mapio a gwaith maes
- Caffi a siop fechan
- Mynediad a thoiled hygyrch addas i bawb

**Mae ein Datganiad Mynediad i'w weld ar ein Gwefan.**

Tu allan

- Meinciau a byrddau ar gyfer gwaith awyr agored neu bicnic
- Mynwent ddifyr
- Taith gerdded hanes trwy dref Nefyn
- Offer: clipfyrddau, cwmpawdau, pecyn natur, gwaith maes, gazebos

Mae croeso cynnes bob amser i ysgolion / dosbarthiadau ymweld â'r Amgueddfa trwy drefniant, boed am awr, bore, pnawn neu ddiwrnod cyfan.

Medrwn drefnu lluniaeth ysgafn.

Bydd pob ymweliad yn cael ei deilwra yn bersonol i 'ch hanghenion ac mae ein prisiau yn hynod o resymol.

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Ffurflen ymweld

| | |
|---|---|
| Ysgol | |
| Enw a manylion cyswllt | |
| Dyddiad arfaethedig yr ymweliad | |
| Hyd yr Ymweliad | |
| Pwnc/meysydd dan sylw/ anghenion | |
| Nifer y disgyblion<br>Nifer o staff | |
| Oedran | |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | |
| Asesiad Risg | |
| Dyddiad derbyniwyd | |

Dychwelwch y ffurflen hon at y Swyddog Treftadaeth mewn da bryd os gwelwch yn dda

**afllmm@yahoo.com**

# Manylion Cyswllt yr Amgueddfa

Trwy ebost : **afllmm@yahoo.com**

Trwy ffonio : **01758 721 313 / 07917770851** (neu gadewch neges)

Trwy lythyr : **Y Swyddog Treftadaeth,**
**Amgueddfa Forwrol Llŷn,**
**Stryd y Mynach,**
**Nefyn,**
**Gwynedd LL53 6LB**

Medrwch hefyd anfon neges trwy'n gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol :

Ein Gwefan : **www.llyn-maritime-museum.co.uk**

Gweplyfr : **AmgueddfaForwrolLlynMaritimeMuseum/Facebook**

Twitter : **@AmgLlynMus**

Instagram : **amgueddfa.forwrol**

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Diolchiadau

**Cyflwynedig i blant Llŷn gan obeithio y gwnewch gadw'r cof am yr oesoedd a fu i'r dyfodol**

Gyda diolch i'r canlynol am eu cymorth a'u cefnogaeth i'r fenter hon.


Pwyllgor yr Amgueddfa

Y gwirfoddolwyr a gyfranodd i'r pecyn — Ann, Eurwen, Janet, Jina a Lois

Arweinydd y Prosiect — Bethan

Yr arbenigwyr a gytunodd i gyfrannu ar fideo—Meic Massarelli, Rodney Jones ac Owain Williams

AHNE Llŷn am eu cefnogaeth a'u nawdd

Delyth am ddarllen trwy'r pecyn ac am ei hawgrymiadau gwerthfawr

Geraint am brawfddarllen y pecyn

Ein criw arteffactau am eu cymorth parod

Ein Swyddog Dreftadaeth, Jina, am annog a helpu'n gyffredinol

Y Gronfa Treftadaeth am gyfrannu at y gost o gynhyrchu'r ffolderi

Chi, bobl a phlant Llŷn, am eich cefnogaeth gyson i'r Amgueddfa


**A'r gair olaf:**

Paham y mae hanes lleol yn bwysig?

*Gwas bach, mewn cae, ar ei ddiwrnod cyntaf, yn gofyn i'w feistr,*
*"Ymhle ydych chi am i mi ddechrau hel cerrig, Mistar?"*
*"Wrth dy draed, 'ngwas i ! "*

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum